I S - D D E D D F W R I A E T H

# 2019 Rhif 35

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Cyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Medi 2019* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 3A(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**1**), ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau lleol yng Nghymru y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â'u gwasanaethau mabwysiadu(**2**), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Hydref 2019.

---

(**1**) 2002 p. 38. Mewnosodwyd adran 3A gan adran 170 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4).

(**2**) Mae adran 3A(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdodau lleol y rhoddir y Cyfarwyddydau iddynt. Ymgynghorwyd ar y cynnig i leihau'r terfyn amser presennol ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu atgyfeirio i Gofrestr Fabwysiadu Cymru fanylion darpar fabwysiadwyr unwaith y cânt eu cymeradwyo, a manylion plant y mae penderfyniad wedi ei wneud ar eu cyfer y dylent gael eu lleoli ar gyfer eu mabwysiadu, fel rhan o Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru WG36071 (Rheoliadau i gyflwyno proses gymeradwyo dau gam ar gyfer mabwysiadwyr), a ddyroddwyd ar 3 Hydref 2018.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i awdurdodau lleol yng Nghymru.

(4) Yn y Cyfarwyddydau hyn, ystyr "y Prif Gyfarwyddydau" yw Cyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) 2015(**1**).

**Diwygiadau i'r Prif Gyfarwyddydau**

**2.** Mae'r Prif Gyfarwyddydau wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff 3(1), hepgorer y diffiniad o "cymdeithas fabwysiadu gofrestredig" ("*registered adoption society*");

(b) ym mharagraff 16—

(i) yn is-baragraff (1)(a), yn lle "tri" rhodder "un";

(ii) yn is-baragraff (3)(a), yn lle "tri" rhodder "un".

*Enw;* Julie Morgan
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad: 30 Medi 2019

(**1**) Llofnodwyd Cyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau mabwysiadu) (Cymru) (2015 Rhif 12) ar 12 Mawrth 2015 gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru llyw.cymru/cyfarwyddydau-deddf-mabwysiadu-phlant-2002-cyd-drefniadau-mabwysiadu-cymru-2015-rhif-12.